Children's Participation in Schools

***Dangos y darlun presennol - dadansoddiad beirniadol o fframwaith deddfwriaeth a pholisi presennol***



Roedd y rhan hon o'r prosiect yn archwilio sut mae deddfwriaeth a pholisi yn gosod athrawon mewn perthynas â hawliau cyfranogol plant ifanc mewn ysgolion cynradd yng Nghymru. Cynhaliwyd dadansoddiad beirniadol o ddogfennau deddfwriaeth a pholisi Cymru sy'n berthnasol i ddeddfiad hawliau cyfranogol plant ifanc mewn ysgolion.

Gellir darlunio polisïau fel prosesau parhaus, rhyngweithiol ac ansefydlog sydd wedi'u gwreiddio yn adeiladwaith cymdeithasol (Ball, 2021). Felly, gall dadansoddi dogfennau polisi ychwanegu at ein dealltwriaeth o faterion addysgol o fewn ymchwil ac ymarfer drwy ystyried y grymoedd y tu ôl i drywydd polisi cyffredinol a llunio dogfennau polisi penodol (Cardno, 2018).

Casglwyd amrywiaeth o ddeddfwriaethau a pholisïau sy'n ymwneud ag addysg a'r cwricwlwm yng Nghymru, yn ogystal ag adroddiadau a gwerthusiadau cysylltiedig. Roedd yr amserlen yn ymestyn o 1999 gyda datganoli'r pŵer dros lunio polisïau addysgol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Senedd erbyn hyn), hyd at ddatblygiad a gweithrediad y Cwricwlwm newydd i Gymru yn 2021. Ein man cychwyn oedd The Learning Country (Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2001), a ystyrir yn aml fel y weledigaeth ar gyfer addysg yng Nghymru yn ystod degawd cyntaf datganoli (Gweler Murphy a Waters-Davies, 2022)

Cafodd ddeddfwriaethau allweddol sy'n berthnasol i addysg megis Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru: Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 a'r Ddeddf Anghenion

Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2017) eu cynnwys. Roedd ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yng Nghymru drwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) (2011) yn ganolog i'n dadansoddiad, yn ogystal â'r testunau deongliadol ar gyfer CCUHP (a gyhoeddwyd gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn) e.e. Sylwadau Cyffredinol Rhifau 1,7, 12, 17 a 25. Ymgorfforwyd dogfennau eraill sy'n canolbwyntio ar hawliau plant mewn polisi cyhoeddus yng Nghymru megis Y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc (2018), Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (2001) a Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant i Addysg yng Nghymru

Ar gyfer y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth ac ar gyfer y Canllawiau Arolygu, defnyddiwyd y fersiynau diweddaraf. Edrychwyd ar werthusiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru a chafodd dau adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru eu cynnwys, yn ogystal ag adolygiadau allweddol o Addysg Gymraeg a gynhyrchwyd gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD).

Defnyddiwyd gwaith Cardno (2018) i gefnogi proses y dadansoddiad polisi ar gyfer y rhan gychwynnol hon o'r prosiect. Gwerthuswyd y dogfennau cyfreithiol ac addysgol a ddewiswyd o ran y cyd-destun polisi. Mae Cardno (2018 t.628) yn disgrifio hyn fel 'y grymoedd a'r gwerthoedd sydd wedi ysgogi polisi i ddod i fodolaeth.' Fel gwaith lawn o roi cyd-destun i'r gyfraith/polisi penodol, ystyriwyd yr awdur, y gynulleidfa a'r meysydd llywodraethu y bwriedir i'r polisi fod ar eu cyfer, yn ogystal â'r diben, y rheswm y crewyd y polisi, a'i brif nodau. Nodwyd hefyd statws y polisi neu'r sail gyfreithiol.

Yna, fe wnaethom ganolbwyntio ar y testun polisi y mae Cardno (2018) yn ei nodi fel prif ffocws y broses ddadansoddi. Nododd y tîm ymchwil nifer o gwestiynau allweddol i gefnogi'r gwaith o archwilio'r testun ysgrifenedig, gan gynnwys cyfeiriadau penodol ac ymhlyg at athrawon, e.e. a yw'r polisi'n cyfeirio'n benodol/ymhlyg at athrawon, addysgwyr, staff ysgolion, arweinwyr addysg, addysgeg, cynnwys y cwricwlwm, neu lais y disgybl? Chwiliwyd hefyd am gyfeiriad penodol at hawliau cyfranogol. Gofynnwyd a yw'r ddogfen gyffredinol yn cefnogi hawliau cyfranogol?
Yn ogystal â chyd-destun a thestun, mae model dadansoddi polisi Cardno (2018) yn ystyried canlyniadau polisi sy'n gysylltiedig â gweithredu a dehongli polisi. Bydd canlyniadau'n cael eu hystyried yng nghamau dilynol y prosiect, gan gynnwys data a gesglir drwy arolwg i ddarparwyr addysg uwch a darparwyr dysgu proffesiynol yng Nghymru.

**Cyfeirnodau**


Ball, S. (2021) The Education Debate, 4th ed. Bryste: The Policy Press

Cardno, C. (2018) Policy document analysis: A practical educational leadership tool and a qualitative research method Educationl Administration: Theory and Practice Volume 24, Issue 4, tt: 623-640

*Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001* Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2001/2787/made/welsh Cyrchwyd ar (insert date)

Murphy, A. a Waters-Davies, J (2022) 'The children's rights approach to early childhood education'

yn Conn, C. a Murphy, A. (Gol.) *Inclusive Pedagogies for Early Childhood Education: Respecting and Responding to Differences in Learning.* Routledge.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2001) The learning country: a paving document. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Llywodraeth Cymru, (2018). Y *Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru, (2017). *Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant i Addysg yng Nghymru* Caerdydd: Llywodraeth Cymru